

Rhif: WG46474

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

HMS

Diwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) ychwanegol ar gyfer dysgu
proffesiynol cenedlaethol 2022 i 2025

Rhagfyr 2022

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Diwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol cenedlaethol 2022 i 2025.

Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Datblygu Arweinyddiaeth

Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol

Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: LeadershipDevelopmentDatblyguArweinyddiaeth@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Copiau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori:

<https://llyw.cymru/diwrnodau-hms-ychwanegol-dysgu-proffesiynol-cenedlaethol-2022-2025>

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Yr Ymgynghoriad	1
Pwy ymatebodd i'r Ymgynghoriad?	1
Crynodeb o'r Ymatebion	2
Ymateb Llywodraeth Cymru	5
Y Camau Nesaf	6
Atodiad A – Rhestr o'r Ymatebwyr	7

Cyflwyniad

Mae gan y systemau addysg sy'n perfformio orau yn y byd addysgwyr a staff cymorth egniol a brwdfrydig sydd wedi ymrwymo i ddysgu parhaus. Mae'r ymrwymiad gydol gyrfa hwn i ddysgu proffesiynol yn hanfodol i ansawdd ac effaith addysgu a dysgu mewn unrhyw wlad. Yng Nghymru, rydym wedi datblygu dull cenedlaethol o ddysgu proffesiynol gydol gyrfa ar gyfer gweithlu ein hysgolion, gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr addysgu, staff cyflenwi ac arweinwyr. Rydym am gefnogi ymarferwyr yng Nghymru i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol gydol eu hoes, ac i ystyried eu harferion eu hunain a'u gwella er mwyn cymell ac ysbrydoli plant a phobl ifanc eu hysgolion.

Mae'r system addysg yng Nghymru wedi wynebu heriau sylweddol yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf oherwydd y tarfu ar addysg o ganlyniad i bandemig COVID-19. Yn ogystal, mae diwygiadau sylweddol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chwricwlwm newydd i Gymru wedi eu cyflwyno. Mae angen rhoi mwy o sylw yn gyffredinol ledled y system i weithredu cwricwlwm newydd Cymru a'r diwygiadau o ran ADY, yn ogystal â sicrhau tegwch mewn addysg (lleihau effaith tloti ar gynnydd a chyrraeddian disgyblion). Rydym yn cydnabod bod angen rhoi amser i bob ymarferydd yn hyn o beth.

Daeth yr ymgynghoriad "Diwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol cenedlaethol 2022 i 2025" i ben ddydd Gwener 28 Hydref 2022. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y canlynol ('y cynnig polisi'):

- Darparu diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer pob un o'r 3 blynedd academaidd nesaf (2022 i 2025)
- Os cytunir, amseru'r diwrnodau HMS ychwanegol
- Os cytunir, ffocws y diwrnodau HMS ychwanegol.

Yr Ymgynghoriad

Gwahoddwyd safbwyntiau fel rhan o gyfnod ymgynghori 5 wythnos a hanner a ddechreuodd ar 20 Medi 2022 ac a ddaeth i ben ar 28 Hydref 2022. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau ynghylch y cynnig polisi, ynghyd â chwestiynau safonol am y Gymraeg, ac fe'i cyhoeddwyd ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd modd i'r ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur, ar e-bost neu ar-lein, yn Gymraeg neu yn Saesneg. E-bostiwyd y ddolen i'r ymgynghoriad at ystod o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff cynrychiadol, cyrff proffesiynol, sefydliadau'r sector ac awdurdodau lleol.

I Gymru yn unig yr oedd yr ymgynghoriad yn berthnasol.

Pwy ymatebodd i'r Ymgynghoriad?

Cafwyd 1623 o ymatebion i gyd. Mae'r holl ymatebion wedi eu hystyried a'u dadansoddi. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli ystod o grwpiau buddiant. Derbyniwyd 1480 o ymatebion gorffenedig, 162 o ymatebion rhannol ac 1 llythyr.

Mae rhestr o'r ymatebwyr na ofynnodd am gael bod yn ddiennw yn Atodiad A.

Crynodeb o'r Ymatebion

Diben y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Nid yw'n ceisio cyfleu pob pwynt a wnaed gan yr ymatebwyr. Roedd y ddogfen ymgynghori yn gofyn chwe cwestiwn, a chrynohoir isod yr ymatebion i bob un. Ni atebodd pob ymatebwr bob cwestiwn. Rhoddodd rhai ymateb cyffredinol yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol. Yn yr achosion hynny, mae'r ymateb wedi'i gynnwys o dan y cwestiwn mwyaf priodol.

Cwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno y dylai fod diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol cenedlaethol yn ystod blynyddoedd academaidd 2022 i 2023, 2023 i 2024 a 2024 i 2025, er mwyn caniatáu i'r proffesiwn addysg gael rhagor o amser i ymwneud â dysgu proffesiynol wrth i newidiadau i'r system addysg (gan gynnwys mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol (ADY)) gael eu rhoi ar waith?

Roedd 81.49% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cael diwrnod HMS ychwanegol
Roedd 17.34% yn anghytuno
Roedd 1.17% heb gytuno nac anghytuno

Cawsom 1459 o ymatebion i'r cwestiwn, a 412 o sylwadau:

- Roedd llawer yn cytuno bod angen diwrnodau HMS ychwanegol i ddatblygu staff ac y byddant yn hanfodol er mwyn helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru ac ar gyfer blaenoriaethau eraill.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r diwrnod HMS ychwanegol fod ar gael hefyd i staff addysgu ehangach, gan gynnwys cynorthwyrwyr addysgu a'r rhai sy'n gweithio yn y consortia addysg rhanbarthol ac awdurdodau lleol.
- Cododd ambell un bryderon ynghylch effeithiolrwydd diwrnodau HMS a ph'un a ydynt yn arwain at well addysgu a dysgu.
- Yn gysylltiedig â hyn, gwnaed ambell sylw am yr angen i werthuso effeithiolrwydd diwrnodau HMS i'r proffesiwn.
- O'r rhai a oedd yn gwrthwynebu'r diwrnod HMS ychwanegol, roedd llawer yn poeni am y sesiynau dysgu a gollwyd o ganlyniad i'r pandemig, a gwnaed sylwadau am hyd y gwyliau ysgol.
- Cododd tua hanner bryderon am yr effaith ar rieni/gofalwyr sydd naill ai'n defnyddio eu gwyliau blynyddol cyfyngedig ar ddiwrnodau HMS neu'n defnyddio gofal plant. Nododd y rhai sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol y gost, sy'n fwy o broblem yn sgil yr argyfwng costau byw.

Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno y dylem ddarparu hyblygrwydd i ysgolion o ran amseriad y diwrnod HMS ychwanegol yn ystod blynyddoedd academaidd 2022 i 2023, 2023 i 2024 a 2024 i 2025? Os ydych yn anghytuno, rhowch fanylion yn y blwch sylwadau ategol.

Roedd 81.31% yn cytuno y dylem ddarparu hyblygrwydd i ysgolion o ran amseriad y diwrnod HMS ychwanegol
Roedd 13.33% yn anghytuno

Roedd 5.36% heb gytuno nac anghytuno

Cawsom 1455 o ymatebion i'r cwestiwn, a 291 o sylwadau:

- Awgrymodd llawer fod angen hyblygrwydd ar ysgolion i ddatblygu, ac y dylai Penaethiaid allu blaenoriaethu gan fod pob ysgol mewn lle gwahanol o ran eu datblygiad.
- Awgrymodd y rhan fwyaf y dylai'r diwrnod hyrwyddo cydweithio a gweithio clwstwr, felly y byddai angen hyblygrwydd.
- Gofynnodd llawer o'r ymatebwyr am i ysgolion roi digon o rybudd i rieni/gofalwyr am ddyddiau HMS.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn gofyn a fyddai modd cynnal dyddiau HMS yn ystod gwyliau ysgol.
- Awgrymodd lleiafrif, pe bai ysgolion yn yr un ardal awdurdod lleol neu glwstwr yn cynnal eu dyddiau HMS ar yr un diwrnod, y byddai'n help i rieni/gofalwyr sydd angen cymryd gwyliau blynyddol neu drefnu gofal plant, yn enwedig y rhai sy'n gyfrifol am blant mewn lleoliadau uwchradd a chynradd.
- Awgrymodd ambell un fod cynnal y diwrnod HMS naill ai ar ddechrau neu ar ddiwedd y tymor yn well, ond cododd eraill bryderon y byddai ysgolion yn gweld hyn fel gwyliau ychwanegol ac y byddai'r sylw a roddir i ddysgu proffesiynol yn llai.
- Gwnaeth ambell un sylw hefyd ar yr angen am dystiolaeth o effeithiolrwydd diwrnodau HMS, ac awgrymodd nifer fach y dylid cynnal diwrnodau HMS ar ddiwrnodau penodol a gaiff eu monitro.

Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn orfodol i unrhyw ddiwrnod HMS ychwanegol gael ei ddefnyddio yn gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu dysgu proffesiynol i gefnogi ein blaenoriaethau allweddol sef gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau ADY, a sicrhau tegwch yn ein system addysg? Os ydych yn anghytuno, rhowch fanylion yn y blwch sylwadau ategol.

Roedd 79.15% yn cytuno

Roedd 10.46% yn anghytuno

Roedd 10.39% heb gytuno nac anghytuno

Cawsom 1453 o ymatebion i'r cwestiwn, a 238 o sylwadau:

- Roedd y rhan fwyaf yn cytuno y dylid pennu ffocws gorfodol ar gyfer y diwrnod HMS ychwanegol.
- Roedd ambell un yn teimlo bod angen bod yn hyblyg a chaniatáu i ysgolion osod eu blaenoriaethau eu hunain, gan gynnwys o ran datblygu arddangosfeydd ac adnoddau.
- Roedd llawer o'r ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r diwrnod HMS ychwanegol yn teimlo nad oedd atebolrwydd ynghylch diwrnodau HMS, a mynegodd ambell un bryder hyd yn oed bod HMS yn cael ei ddefnyddio i gael diwrnodau ychwanegol i ffwrdd.

- Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r diwrnodau HMS ychwanegol y dylai unrhyw sesiwn dysgu proffesiynol gael ei chynnal yn ystod gwyliau ysgol, neu ar ddydd Sadwrn o bosibl.
- Awgrymodd ambell un y dylid cadarnhau wrth y rhieni beth oedd yn digwydd yn ystod diwrnodau HMS.
- Roedd ambell sylw yn awgrymu bod angen mwy na 3 diwrnod HMS ychwanegol er mwyn ymgysgu â diwygiadau a blaenoriaethau addysgol a'u gweithredu.

Cwestiwn 4 - Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol cenedlaethol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Cawsom 728 o sylwadau:

- Roedd llawer o'r ymatebwyr a wnaeth sylw yn teimlo na fyddai'r cynnig polisi yn cael effaith fawr, os o gwbl, ar y Gymraeg.
- Awgrymodd ambell un y gallai'r diwrnod HMS ychwanegol gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg pe bai'n cael ei ddefnyddio i annog staff i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol drwy'r Gymraeg.
- Roedd yna sylwadau prin bod angen cynyddu'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael i ysgolion.
- Roedd yna sylwadau prin am effaith negyddol bosibl diwrnodau HMS ar yr iaith a diwylliant Cymru, yn enwedig i ddysgwyr sydd o deuluoedd Saesneg eu hiaith gan y byddent yn colli'r cyfle i ddatblygu eu sgiliau iaith yn eu hysgol.
- Awgrymodd y rhan fwyaf y byddai diwrnodau HMS yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, yn enwedig lle roedd yn gyfle i weithio ar y cyd, rhannu arferion da a chanolbwyntio ar ddatblygu sgiliau Cymraeg yr holl staff addysgu.

Cwestiwn 5 - Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cawsom 520 o ymatebion:

- Nid oedd nifer o'r ymatebwyr yn credu y byddai'r polisi yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Roedd llawer yn teimlo y gallai athrawon ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod gwyliau ysgol.
- Gwnaeth ambell un y sylw y gallai'r diwrnod HMS ychwanegol gael effaith gadarnhaol gan fod y Gymraeg yn rhan o'r cwricwlwm newydd, ac y gellid defnyddio'r diwrnod i gefnogi'r broses o addysgu a dysgu'r Gymraeg o fewn y cwricwlwm newydd.

- Awgrymodd ambell un y dylid cael diwrnod HMS penodol ar gyfer sgiliau Cymraeg, a allai gynnwys gwell adnoddau a mwy o gyrsiau trochi yn y Gymraeg.
- Awgrymodd tua hanner yr ymatebwyr a wnaeth sylw ffyrdd o wella a datblygu sgiliau Cymraeg, gan gynnwys sgiliau cynorthwywyr addysgu. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys sesiynau dysgu byr, defnyddio arbenigwyr, amser penodol i ddatblygu sgiliau, gwella Cymraeg sgwrsio, a chynnig cyrsiau sgiliau Cymraeg cymunedol i rieni.
- Roedd yna gyfeiriadau prin at ardaloedd yng Nghymru sy'n Saesneg eu hiaith i raddau helaeth, gan nodi nad oedd ganddynt wrthwynebiad i weld eu plant yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol, cyn belled nad oedd hynny ar draul pynciau eraill.
- Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebwyr yn ansicr ynghylch sut y gellid llunio neu newid y polisi hwn i gael effaith gadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg.

Cwestiwn 6 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi.

Cawsom 236 o ymatebion:

- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn poeni am gost gofal plant ac effaith yr argyfwng costau byw, gan gynnwys i'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu eu hunain.
- Awgrymodd llawer y dylid talu athrawon i gael diwrnodau HMS yn ystod gwyliau ysgol. Roedd hynny'n gysylltiedig â phryderon am golli sesiynau dysgu o ganlyniad i'r pandemig a safonau is mewn ysgolion.
- Roedd ambell un yn teimlo'n gryf bod angen sesiynau dysgu proffesiynol i gefnogi gweithredu diwygiadau addysg, ond gofynnodd llawer am i ganllawiau gael eu llunio ar gyfer HMS.
- Roedd llawer yn teimlo bod yn rhaid cynnwys staff cymorth ac athrawon cyflenwi ar ddiwrnodau HMS.
- Awgrymodd dros hanner yr ymatebwyr y dylid gwerthuso effaith HMS dros y 3 blynedd academaidd nesaf.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae eich barn chi yn bwysig wrth lywio penderfyniadau am ddiwrnodau HMS ychwanegol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, yn enwedig pobl a gyflwynodd ymateb. Gan mai crynodeb yw hwn, efallai nad yw'r holl bwyntiau a wnaed yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn. Mae pob ymateb wedi cael ei ystyried, ac nid yw'r ffaith nad yw mater a godwyd neu awgrym wedi ei nodi yma yn golygu ei fod wedi cael ei ddiystyru. Mae'n bosibl bod llawer o'r materion a nodwyd yn berthnasol i'r rhaglen ehangach o waith sy'n cael ei wneud i sicrhau'r defnydd gorau o'r diwrnodau HMS ychwanegol.

Mae'r safbwyntiau yn cefnogi'r cynnig polisi i wneud darpariaeth ar gyfer ysgolion a gynhelir i ddefnyddio dwy sesiwn (un diwrnod), o fewn y flwyddyn academaidd gyfredol a'r ddwy flynedd academaidd nesaf, at ddiben diwrnod HMS ychwanegol, yn benodol ar gyfer dysgu proffesiynol mewn perthynas â gweithredu cwricwlwm

newydd Cymru, y diwygiadau o ran ADY a sicrhau tegwch yn ein system addysg. Byddwn yn bwrw ymlaen â deddfwriaeth i ganiatáu i hyn ddigwydd yn gynnar yn 2023.

Y Camau Nesaf

Bydd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cyflwyno deddfwriaeth berthnasol. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau i'r sector a fydd yn cael eu cyhoeddi unwaith y bydd y deddfwriaeth wedi ei gosod.

Atodiad A – Rhestr o'r Ymatebwyr

Comisiynydd Plant Cymru
Cyngor y Gweithlu Addysg
Estyn
NASUWT – Undeb yr Athrawon
Yr Undeb Addysg Cenedlaethol
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Gofynnodd 100% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar-lein am i'w hymatebion fod yn ddienw, a hepgorodd 409 arall y cwestiwn.